Asiantaeth
Safonau
Bwyd
food.gov.uk

# Bwyd y gallwch **ymddiried ynddo**

Strategaeth yr
Asiantaeth Safonau Bwyd 2022-2027

**Mae bwyd yn ddiogel**

**Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**

**Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy**

Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

# Bwyd y gallwch **ymddiried ynddo**

## Strategaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2022-2027

**Mae bwyd yn ddiogel**

**Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**

**Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy**

OGL

© Hawlfraint y Goron 2022

Mae'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I gael rhagor o wybodaeth ac i weld y drwydded hon:

- ewch i wefan yr Archifau Gwladol
- anfonwch e-bost i psi@nationalarchives.gov.uk
- ysgrifennwch at: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Os oes gennych chi gwestiynau am y cyhoeddiad hwn, cysylltwch â'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Dilynwch ni ar Twitter: @fsacymru

Dewch o hyd i ni ar Facebook: facebook.com/AsiantaethSafonauBwyd

# Cynnwys


**1. Rhagair – system fwyd sy'n newid** .......... **2**

**2. Ein strategaeth** .......... **4**

Ein cyd-destun polisi .......... 5

Mae bwyd yn ddiogel .......... 6

Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label .......... 8

Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy .......... 9

Sicrhau bod gan bawb bwyd a gallwch ymddiried ynddo .......... 11

**3. Ein prif egwyddorion** .......... **12**

**4. Ein rolau** .......... **14**

Yr ASB fel cynhyrchydd tystiolaeth .......... 15

Yr ASB fel lluniwr polisi .......... 18

Yr ASB fel rheoleiddiwr .......... 21

Yr ASB fel corff gwarchod .......... 25

Yr ASB fel cynullydd a chydweithredwr .......... 27

**5. Gweithredu'r strategaeth a mesur cynnydd** .......... **30**

Mesur cynnydd .......... 31

# 1. Rhagair – system fwyd sy'n newid

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithio ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Mae ein gwaith yn diogelu iechyd pobl, yn lleihau baich economaidd salwch a gludir gan fwyd ac yn cefnogi economi a masnach y Deyrnas Unedig (DU) trwy sicrhau, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, fod gan ein bwyd enw da o ran diogelwch a dilysrwydd yn y DU a thramor.

Mae llawer wedi newid ers cyhoeddi ein strategaeth ffurfiol ddiwethaf yn 2015.

Mae ein rôl wedi tyfu'n sylweddol ers i'r Deyrnas Unedig (DU) ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Rydym ni wedi ymgymryd â chyfrifoldebau newydd, gan gynnwys rheoleiddio bwydydd newydd, cynghori Llywodraeth y DU ar fargeinion masnach newydd, a chynghori a sicrhau safonau ar gyfer bwyd sy'n cael ei fewnforio a'i allforio.

Yn y cyfamser, mae newidiadau o ran technoleg a busnesau yn y system fwyd yn parhau i gyflymu. Mae pobl yn prynu bwyd mewn ffyrdd newydd, er enghraifft trwy farchnadoedd ar-lein a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn prynu bwyd a'r ffordd y mae busnesau bwyd yn gweithredu.

Mae pobl a llywodraethau ledled y byd yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r effaith y mae cynhyrchu bwyd yn ei chael ar y blaned. Mae'r argyfwng hinsawdd yn sbarduno arloesedd mewn bwyd, wrth i ragor o gwmnïau fuddsoddi mewn ffynonellau protein amgen, neu ddeunydd pecynnu bwyd cynaliadwy.

Mae hefyd her barhaus i wella ein deiet cenedlaethol, fel bod y bwyd yr ydym ni'n ei fwyta yn ein helpu i fyw bywydau hirach ac iachach. Mae ein hymchwil yn dangos bod rhai o bryderon mwyaf pobl am fwyd yn ymwneud ag iechyd a maeth.

Mae pobl hefyd yn poeni'n fawr am fforddiadwyedd bwyd ac ansicrwydd bwyd. Byddwn yn parhau i ystyried effaith y materion hyn ar draws ein holl waith.

Bu'r diwydiant bwyd a llywodraethau Cymru, y DU a Gogledd Iwerddon yn cydweithio i sicrhau cyflenwad diogel o fwyd drwy gydol y pandemig COVID-19. Mae pob sioc fawr i'r system fwyd yn effeithio ar gadwyni cyflenwi, staffio a modelau gweithredu. Rhaid i'r ASB fod yn barod i addasu.

Yn y cyd-destun newidiol hwn, mae cenhadaeth yr ASB – bwyd y gallwch ymddiried ynddo – yn parhau i fod mor bwysig ag erioed.

Mae’r strategaeth hon yn disgrifio’r hyn y byddwn yn ei wneud. Byddwn yn parhau i ddiogelu defnyddwyr drwy sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label. Byddwn hefyd yn chwarae ein rhan i helpu i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy i bawb. Mae’r rhain yn ganlyniadau yr ydym eu heisiau i bawb, ble bynnag y maent yn byw yn y DU a beth bynnag fo’u hamgylchiadau personol. Mae materion fel fforddiadwyedd, a’r wybodaeth a roddir i ddefnyddwyr fel y gallant wneud penderfyniadau gwybodus, yn berthnasol i bob rhan o’n cenhadaeth.

Mae ein strategaeth hefyd yn nodi sut y byddwn yn gweithio fel adran annibynnol, anweinidogol o’r llywodraeth. Mae’n ail-gadarnhau rôl gwyddoniaeth a thystiolaeth wrth lywio popeth a wnawn a’n hymrwymiad i fod yn agored, yn gymesur ac yn arloesol. Mae’n nodi ein dyhead i’w gwneud yn haws i fusnesau bwyd gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

Wrth edrych ymlaen, bydd yn hanfodol i’r ASB weithio gydag eraill a thrwy eraill. Gallwn gynnig cryfderau penodol: ein gallu gwyddonol a dadansoddol; ein henw da gyda’r cyhoedd; ein harbenigedd a’n hangerdd dros fwyd; a’n perthnasoedd gwaith technegol ag awdurdodau lleol a’r diwydiant bwyd.

Mae’r system fwyd yn newid ond ceir cyfleoedd cyffrous i sicrhau ei bod yn fwy diogel, yn iachach ac yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd y strategaeth hon yn sicrhau ein bod ni’n chwarae ein rhan.





Mawrth 2022
**Yr Athro Susan Jebb**
Cadeirydd





Mawrth 2022
**Emily Miles**
Prif Weithredwr

# 2. Ein strategaeth

Gwaith yr ASB, a nodir yn y gyfraith, yw diogelu iechyd y cyhoedd a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ond rydym ni'n gweithredu'n annibynnol ac yn agored, dan arweiniad gwyddoniaeth a thystiolaeth.

Ein cenhadaeth sylfaenol yw bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Mae'r genhadaeth hon wedi aros yn gyson ers ein strategaeth flaenorol, a gyhoeddwyd yn 2015. Fodd bynnag, mae'r system fwyd yn esblygu ac mae angen i'n strategaeth i weithredu'r genhadaeth hon adlewyrchu a rhagweld newid. Mae gan yr ASB ragor o gyfrifoldebau ers i'r DU ymadael â'r UE. Mae technolegau a modelau busnesau newydd a newid ymddygiad defnyddwyr yn golygu bod angen i'r ASB feddwl yn wahanol am sut rydym ni'n cyflawni ein cenhadaeth. Mae angen i ni hefyd ystyried pryder cynyddol y cyhoedd am iechyd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd bwyd.

Pan fyddwn ni'n cyfeirio at fwyd y gallwch ymddiried ynddo, rydym ni'n golygu:



**Mae bwyd yn ddiogel**




**Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**



**Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy**

Dyma ein gweledigaeth ar gyfer y system fwyd ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



**Mae'r ASB yn adran anweinidogol o'r llywodraeth. Mae ein hamcanion, ein pwerau a'n dyletswyddau wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, yn bennaf Deddf Safonau Bwyd 1999.**

**Ein prif nod statudol yw diogelu iechyd y cyhoedd rhag risgiau a allai godi mewn perthynas â bwyta bwyd (gan gynnwys y risgiau sy'n deillio o'r ffordd y caiff ei gynhyrchu neu ei gyflenwi) a diogelu buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Pan fyddwn ni'n cyfeirio at 'fwyd' yn ein strategaeth, rydym ni hefyd yn cynnwys y rôl ehangach yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu neu ei gyflenwi, er enghraifft bwyd anifeiliaid a lles anifeiliaid.**

**Rydym ni'n gweithredu yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o lunio polisi bwyd wedi'i ddatganoli, felly rydym ni'n cynnal perthynas waith gref â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Ond rydym ni'n gweithredu'n annibynnol ar weinidogion ac yn cael ein llywodraethu gan fwrdd annibynnol. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Safonau Bwyd yr Alban, corff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am bolisi bwyd a gweithredu yn yr Alban. Rydym ni bob amser yn cynnwys amgylchiadau neu ddata sy'n benodol i bob cenedl yn y dulliau a ddefnyddiwn a'r cyngor a ddarparwn. Mae'r strategaeth hon yn ymdrin â'n rôl ym mhob gwlad, gan adlewyrchu ein dull 'un ASB'.**

## Ein cyd-destun polisi

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn nodi eu cynlluniau eu hunain ar y cyfeiriad strategol ar gyfer y system fwyd a meysydd perthnasol eraill. Byddwn yn cydweithio'n agos â nhw wrth i ni gyflawni ein strategaeth.

Er enghraifft, rydym ni'n bartner allweddol yn Fframwaith Strategaeth Fwyd Gogledd Iwerddon sy'n nodi gweledigaeth a rennir i arwain y broses o wneud penderfyniadau bwyd hirdymor. Cam dau fydd datblygu cynlluniau gweithredu a metrigau a fydd yn cael eu llywio ymhellach gan y Strategaeth Twf Gwyrdd (strategaeth aml-ddegawd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, cydbwyso hinsawdd, amgylchedd a'r economi) ac Adolygiad Kendall o Sector Bwyd-Amaeth Gogledd Iwerddon sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer nifer o fentrau cynaliadwyedd pellach.

Rydym ni'n bwriadu gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gyflawni ei strategaeth ar gyfer y sector bwyd, yn dilyn yr argymhellion a gyhoeddwyd yn adolygiad annibynnol Henry Dimbleby o'r enw "National Food Strategy". Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i lywio unrhyw newidiadau posibl i gyfraith yr UE ar fwyd a ddargedwir yn y dyfodol, yn unol â Phapur Gorchymyn Manteision Brexit, ac i gyflawni

ymrwymiadau a wnaed yn y Papur Gwyn Codi'r Gwastad. Wrth baratoi ein strategaeth, rydym ni wedi ystyried blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer 'Diwygio'r Fframwaith ar gyfer Rheoleiddio Gwell', a bydd y rhain yn llywio ein rhaglen waith mewn meysydd perthnasol.

Rydym ni'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar amrywiol feysydd o ddiddordeb a rennir o'i Rhaglen Lywodraethu 2021–26. Mae'n cynnwys yr ymrwymiadau i ddatblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol Cymru i annog cyflenwi bwyd o ffynonellau lleol yng Nghymru ac i ddatblygu model cenedlaethol ar gyfer rheoleiddio lles anifeiliaid. Wrth lunio a chyflawni ein strategaeth, rydym ni hefyd wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd ac atal problemau parhaus, gan gynnwys anghydraddoldebau iechyd. Er nad ydym ni'n gorff a enwir o dan y ddeddf, rydym ni'n gweithio i'r egwyddorion sydd ynddi.

Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi pennu uchelgeisiau sero net mwy cyffredinol, gan gynnwys Strategaeth Sero Net y DU, Cynllun Cymru Gyfan a Strategaeth Twf Gwyrdd Gogledd Iwerddon. Yn yr un modd, mae pob llywodraeth wedi gosod nodau yn ymwneud ag iechyd pobl. Rydym ni'n gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar eu Papur Gwyn sydd ar y gweill ar Wahaniaethau ar Sail Iechyd, i ddarparu mewnwelediad a sicrhau bod cymunedau ar draws y DU yn cael mynediad at ddeietau iach a maethlon. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cynllun gweithredu Pwysau Iach Cymru Iach i atal a lleihau gordewdra. Bydd y cynllun hwn yn helpu i gefnogi adferiad gwyrdd a newid y ffordd yr ydym yn symud ac yn bwyta. Mae'r Adran Iechyd yng Ngogledd Iwerddon yn arwain ar y Fframwaith Trawsadrannol, Dyfodol Mwy Heini i Bawb, sy'n ceisio atal gorbwysedd a gordewdra gydol oes y boblogaeth. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu strategaeth olynol. Mae gan y sector bwyd ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r rhain.

## Mae bwyd yn ddiogel

Mae bwyd yn hanfodol i bawb, bob dydd. Mae gan bob un ohonom yr hawl i ddisgwyl na fydd y bwyd rydym yn ei fwyta yn ein gwneud yn sâl.

Dyna pam y byddwn yn blaenoriaethu cadw lefel clefydau a gludir gan fwyd yn isel. Gwnawn hyn mewn sawl ffordd; o'n gwaith arolygu uniongyrchol yn y diwydiannau cig, cynnyrch llaeth a gwin i'n rhaglenni gwyliadwriaeth a'n rhaglenni ataliol.

Er mwyn cyflawni'r rhan hon o'r weledigaeth bydd angen i ni barhau i arloesi, esblygu ac ymateb i newidiadau ar draws y system fwyd.




**Bob munud yn y DU, mae pum person yn mynd yn sâl ar ôl bwyta bwyd wedi'i halogi. Mae mwy na 2.4 miliwn o achosion yn ymwneud â chlefydau a gludir gan fwyd bob blwyddyn, ac mae 15,500 ohonynt yn cael triniaeth ysbyty ac amcangyfrifir bod 160 o bobl yn marw o'r clefydau hyn. Mae hyn yn costio tua £9.1 biliwn y flwyddyn i gymdeithas y DU (Baich Clefydau a Gludir gan Fwyd, yr ASB, 2018). Mae ein gwaith yn lleihau'r tebygolrwydd o achosion o glefydau a gludir gan fwyd.**

**Rydym ni hefyd yn buddsoddi mewn rhaglenni ataliol fel y Strategaeth Lleihau Campylobacter, a wnaeth atal tua 100,000 o achosion yn 2016 (Adroddiad Blynyddol a chyfrifon cyfunol 2016/17), o gymharu â nifer cyfartalog yr achosion rhwng 2009 a 2013.**



- Mae'r ASB yn uniongyrchol gyfrifol am arolygu, archwilio a sicrhau busnesau sy'n cynhyrchu cig, gwin a chynnyrch llaeth yng Nghymru a Lloegr. Rydym ni'n gweithredu Rheolaethau Swyddogol mewn lladd-dai a sefydliadau trin anifeiliaid hela, ac rydym ni'n archwilio ac yn arolygu ffatrïoedd torri cig, cynhyrchwyr gwin a sefydliadau cynhyrchu llaeth ar ffermydd. Mae'r ASB yn cynnal rheolaethau pysgod cregyn ar y cyd ag awdurdodau lleol. Mae rheoleiddio'r meysydd hyn yn effeithiol yn parhau i fod yn un o'n prif flaenoriaethau.



- Yn y maes, o ddydd i ddydd, mae Milfeddygon Swyddogol ac Arolygwyr Hylendid Cig yn cynnal arolygiadau i sicrhau bod busnesau yn y diwydiant cig yn cyflawni eu rhwymedigaethau o ran diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid, er mwyn diogelu defnyddwyr a chefnogi masnach ryngwladol.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gyflawni gweithgareddau fel arolygiadau, archwiliadau, gwyliadwriaeth a samplu (a elwir yn Rheolaethau Swyddogol) yn y rhan fwyaf o sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r rheolaethau hyn yn ymwneud â hylendid bwyd (ansawdd microbiolegol bwyd a halogiad bwyd gan ficro-organebau neu ddeunydd allanol) a safonau bwyd (cyfansoddiad, halogiad cemegol, difwyno, a labelu bwyd). Rydym ni'n gweithio gyda phob un o'r 344 o awdurdodau lleol yn Lloegr, 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac 11 o awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DAERA) sydd hefyd yn gweithredu rhai rheolaethau yng Ngogledd Iwerddon.
O'r awdurdodau lleol hyn, mae 89 hefyd yn cynnal rheolaethau iechyd porthladdoedd ar y ffin ynghyd â phedwar awdurdod iechyd porthladd ar wahân.




## Mae bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

Dylai defnyddwyr fod yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Dyna pam y byddwn yn sicrhau bod bwyd yn ddilys ac wedi'i ddisgrifio'n gywir. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod y cyhoedd, a'n partneriaid masnachu rhyngwladol, yn parhau i fod yn hyderus am fwyd y DU. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng dilysrwydd bwyd a diogelwch bwyd.

**Yn 2008, canfuwyd bod rhai cynhyrchion llaeth a gynhyrchwyd yn Tsieina wedi'u difwyno *(adulterated)* â melamin. Arweiniodd yr halogiad hwn at farwolaethau chwech o fabanod. Effeithiwyd ar gannoedd o filoedd o blant, gyda dros 50,000 yn yr ysbyty. Amcangyfrifir bod sgandal melamin mewn llaeth wedi costio £7.7 biliwn i'r economi fyd-eang.**




**Amcangyfrifir bod sgandal cig ceffyl 2013, pan ganfuwyd olion DNA ceffyl a phorc mewn cynhyrchion cig, wedi costio tua £850 miliwn i ddiwydiant y DU.**



### Troseddau bwyd

Mae ein Huned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yn gweithio i fynd i'r afael â thwyll difrifol a throseddu cysylltiedig o fewn cadwyni cyflenwi bwyd. Amcangyfrifir bod troseddau bwyd, sy'n aml yn peryglu dilysrwydd bwyd, yn costio hyd at £3.6 biliwn y flwyddyn i gymdeithas. Mae gwaith yr Uned yn hanfodol i helpu i ddiogelu enw da allforion y DU, ond hefyd i leihau baich troseddau bwyd ar economi'r DU.

### Gorsensitifrwydd i fwyd

Yn y DU, amcangyfrifir bod dwy filiwn o bobl wedi cael diagnosis o alergedd bwyd a bod gan chwe chan mil o bobl glefyd seliag. Mae'r ASB yn gyfrifol am labelu alergenau a darparu canllawiau i ddefnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd (sy'n cynnwys alergedd bwyd, Clefyd Seliag, ac anoddefiad bwyd). Rydym ni'n gweithio'n agos gyda busnesau bwyd i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau ac yn ymgorffori mesurau rheoli gorsensitifrwydd i fwyd mewn diwylliant diogelwch bwyd cadarn.  Mae hyn yn golygu y gall defnyddwyr wneud dewisiadau mwy diogel am y bwyd y maent yn ei brynu.

## Mae bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy

Mae iechyd deietegol a chynaliadwyedd yn flaenoriaethau cynyddol i Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, ac i'r defnyddwyr yr ydym yn diogelu eu buddiannau.

Er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn, mae angen i'r system fwyd gyfrannu.

Mae angen i ni chwarae ein rhan yn cefnogi partneriaid y llywodraeth ac eraill yn y system fwyd ehangach i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr gael mynediad at ddeiet iachach a mwy cynaliadwy.

Mae'r materion hyn hefyd yn effeithio ar rannau eraill o'n gweledigaeth. Er enghraifft, mae tymereddau sy'n codi yn golygu bod cadwyni bwyd a bwyd anifeiliaid mewn mwy o berygl o bathogenau a pheryglon eraill, fel afflatocsinau – y sylweddau gwenwynig a achosir gan ffwng. Os nad ydym yn gweithredu nawr a chwarae ein rhan i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, bydd yn llawer anoddach i ni gadw bwyd yn ddiogel. Gall tywydd eithafol effeithio ar gadwyni cyflenwi, a all yn ei dro olygu nad yw labelu wedi'u hargraffu ymlaen llaw yn gywir mwyach os caiff cynhwysion eu hamnewid ar fyr rybudd. Bydd yr awydd am broteinau cynaliadwy yn arwain at arloesi yn y diwydiant


bwyd, ac mae angen i'r ASB gynnal asesiad risg o unrhyw fwydydd newydd.

Rydym ni'n gwybod bod defnyddwyr am weld newid. Dywedodd dros tri o bob pump o'r rhai a ymatebodd i arolwg diweddaraf yr ASB yn olrhain mewnwelediad defnyddwyr eu bod yn pryderu am effaith cynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd. Nododd dros hanner yr ymatebwyr eu bod yn pryderu ynghylch pa mor iach yw eu deiet personol (Traciwr Mewnwelediad Defnyddwyr yr ASB Tachwedd 2021).

Mae adrannau eraill yn gyfrifol yn benodol am iechyd a chynaliadwyedd, ond fel unig gorff y llywodraeth sy'n edrych ar fwyd yn unig, gallwn helpu i gefnogi ymdrechion y tair llywodraeth i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy. Mae gennym hefyd gyfrifoldebau polisi penodol mewn perthynas â safonau maeth yng Ngogledd Iwerddon.

**Mae deiet gwael yn faich mawr a chynyddol ar iechyd y cyhoedd, gan gostio £10 biliwn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a**


**£27 biliwn**
i'r gymdeithas ehangach.



**Mae risgiau deietegol yn parhau i fod yn un o'r ffactorau mwyaf a all gynyddu eich risg o ddatblygu clefyd (Baich Clefydau Byd-eang, Hydref 2020). Yn Lloegr, y mwyaf ymhlith y ffactor risg y gellir ei haddasu yw Mynegai Màs y Corff (BMI) uchel ac mae mwy na hanner y rhestr o'r 20 prif risg i iechyd yn gysylltiedig â deiet (Iechyd Cyhoeddus Lloegr, Proffil Iechyd Lloegr 2017).**

**Mae bwyd yn cael effaith enfawr ar yr amgylchedd. Mae bwyd a diod yn gyfrifol am**

**17%** **o allyriadau nwyon tŷ gwydr y DU, ac mae'r Pwyllgor ar Newid Hinsawdd yn dweud bod newidiadau i fwyd, er enghraifft lleihau gwastraff neu newid deiet, yn rhan allweddol o gyflawni sero net.**



### Rhaglen Bwyta'n Dda Dewis yn Well

Mae ein rhaglen Bwyta'n Dda Dewis yn Well (EWCB) yn cefnogi busnesau bwyd bach a chanolig eu maint yng Ngogledd Iwerddon i leihau faint o galorïau, siwgr, braster dirlawn a halen sydd yn y bwyd y maent yn ei gynhyrchu, ei werthu neu ei weini, yn ogystal â lleihau maint y dognau er mwyn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau iachach. Mae rhaglen EWCB yn cyd-fynd â rhaglen lleihau siwgr Llywodraeth y DU a rhaglen ailfformiwleiddio ehangach gyda manwerthwyr a chynhyrchwyr y DU sy'n gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.

I gyflwyno'r rhaglen hon rydym ni'n gweithio'n agos gyda chynrychiolwyr o bob rhan o Ogledd Iwerddon, yr Adran Iechyd, Adran Iechyd Gweriniaeth Iwerddon, Invest NI, y diwydiant bwyd, cynghorau dosbarth a sefydliadau academaidd.

## Sicrhau bod gan bawb fwyd y gallwch ymddiried ynddo

Mae cenhadaeth yr ASB – bwyd y gallwch ymddiried ynddo – yn ganlyniad yr ydym ei eisiau i bawb, ble bynnag y maent yn byw yn y DU a beth bynnag fo'u hamgylchiadau personol. Bydd hyn ond yn bosib os yw pawb yn gallu cael gafael ar y bwyd sydd ei angen arnynt ac yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus am y bwyd y maent yn ei fwyta. Mae'r materion hyn yn berthnasol i bob un o'r tair rhan o'n gweledigaeth.

Felly, mae angen i ni ddeall y ffactorau sy'n effeithio ar allu pobl i gael mynediad at fwyd a'r dewisiadau maent yn eu gwneud. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar ddata o ansawdd uchel yn y meysydd hyn, i lywio ein gwaith ni a gwaith y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ar draws y system fwyd.

**Mae ansicrwydd bwyd mewn cartrefi a phrisiau cynyddol yn destun pryder cynyddol. Cynyddodd pryderon am fforddiadwyedd yn ystod y pandemig COVID-19, ac maent wedi cynyddu eto yn ystod y misoedd diwethaf. Dywedodd 25% o'r defnyddwyr a holwyd ym mis Tachwedd 2021 eu bod yn poeni am fforddiadwyedd bwyd, a 21% yn dweud eu bod yn lleihau maint prydau bwyd neu'n hepgor prydau am nad ydynt yn gallu fforddio prynu bwyd (Traciwr Deall Safbwyntiau Defnyddwyr, Tachwedd 2021).**

# 3. Ein prif egwyddorion

Rydym ni wedi datblygu saith **prif egwyddor** sy'n nodi sut yr ydym am weithio dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r egwyddorion yn adlewyrchu rhai o gryfderau presennol ein sefydliad y mae'n rhaid i ni eu cynnal, a rhai ffyrdd hollbwysig y mae angen i ni barhau i esblygu:

1. **Ni yw'r llais dibynadwy ar safonau bwyd, gan ddiogelu buddiannau defnyddwyr.** Rydym ni'n defnyddio ein dealltwriaeth fanwl o fuddiannau defnyddwyr i lywio penderfyniadau am y system fwyd. Rydym ni'n ennill ac yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd. Os bydd angen, rydym ni'n blaenoriaethu budd y defnyddiwr uwchlaw buddiannau eraill.

2. **Rydym ni'n cael ein harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth.** Rydym ni'n seilio ein penderfyniadau ar wyddoniaeth a thystiolaeth. Rydym ni'n cynhyrchu mewnwelediadau a dadansoddiadau sy'n llywio ein gwaith ac sy'n gallu llywio polisïau ac arferion sefydliadau eraill yn y system fwyd. Rydym ni'n dweud y gwir am fwyd.

3. **Rydym ni'n agored ac yn dryloyw.** Rydym ni'n darparu gwybodaeth glir i'r cyhoedd sy'n eu helpu i ddeall risg. Rydym ni'n cyhoeddi ein hymchwil a thystiolaeth ac yn gwneud ein penderfyniadau yn gyhoeddus.

4. **Rydym ni'n gweithio gydag eraill, a thrwy eraill.** Rydym ni'n gweithio gydag eraill i ddefnyddio eu cyrhaeddiad a'u dylanwad i wella safonau bwyd a, lle y bo'n briodol, newid ymddygiad defnyddwyr a'r diwydiant. Rydym ni'n gweithio'n agos gyda phartneriaid ym mhob rhan o'r DU, gyda llywodraeth genedlaethol a lleol ac ar draws y diwydiant, y byd academaidd, cymdeithas sifil a'n cyflenwyr.

5 **Rydym ni'n ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr.** Rydym ni'n gwrando ar adborth ac yn cael gwared ar rwystrau i gyflawni safonau uchel. Rydym ni am helpu busnesau i wneud pethau'n iawn i ddefnyddwyr ac i arloesi. Bydd hyn o fudd i ddefnyddwyr a busnesau fel ei gilydd.

6 **Rydym ni'n seiliedig ar risg ac yn gymesur.** Rydym ni'n gymesur yn ein dull, gan ganolbwyntio ar fwyd a busnesau sy'n peri'r risg fwyaf i ddefnyddwyr. Rydym ni'n sicrhau nad oes baich di-angen ar fusnesau.

7 **Rydym ni'n arloesol.** Rydym ni'n rhagweld newid ac yn ymateb yn gyflym i ddatblygiadau cyflym yn y sector bwyd yma a thramor. Rydym ni'n rhagweithiol yn ein gwaith i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac i gynnal hyder defnyddwyr, busnesau a phartneriaid masnachu. Rydym ni'n defnyddio data a thechnoleg ddigidol i sbarduno newid.

Byddwn yn parhau i ymgorffori'r egwyddorion hyn drwy'r holl waith y mae ein timau'n ei wneud.

# 4. Ein rolau

Mae gan yr ASB amrywiaeth o bwerau a dyletswyddau statudol, ac rydym ni'n cyflawni rolau gwahanol yn y system fwyd.

**Rydym ni'n gynhyrchydd tystiolaeth**

**Rydym ni'n wneuthurwr polisi**

**Rydym ni'n rheoleiddiwr**

**Rydym ni'n gorff gwarchod**

**Rydym ni'n gynullydd ac yn gydweithredwr**

Nid yw'r bennod hon yn nodi cynllun gwaith cyflawn ar gyfer y pum mlynedd nesaf, ond mae'n cynnwys rhai enghreifftiau allweddol i ddangos y gwaith y disgwyliwn ei wneud. Mae ein dull mwy manwl o gynllunio busnes wedi'i nodi yn adran 5.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rolau hyn yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r gwahanol rannau o'n gweledigaeth.

# Yr ASB fel cynhyrchydd tystiolaeth

### Beth rydym ni'n ei wneud?

Mae gennym ni enw da yn fyd-eang am wyddoniaeth ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys asesiadau cyflym o risgiau i ddiogelwch defnyddwyr, datblygu technegau gwyliadwriaeth newydd i nodi risgiau'n gyflymach a deall ymddygiad defnyddwyr. Rydym ni'n cyhoeddi ein tystiolaeth yn unol â'n hymrwymiad i fod yn dryloyw. Mae hyn yn golygu ei bod ar gael am ddim i eraill sy'n gwneud polisïau a phenderfyniadau, i lywio canllawiau i fusnesau ac fel y gall y cyhoedd ymddiried yn ein penderfyniadau.

### Pam rydym ni'n gwneud hyn?

Sicrhau bod ein penderfyniadau ni, a phenderfyniadau eraill, yn cael eu llywio gan y dystiolaeth orau – fel y gall bawb gael bwyd y gallwch ymddiried ynddo. Rydym ni am i ddata, dadansoddiadau, mewnwelediad ac ymchwil gref ddylanwadu ar ganlyniadau amgylcheddol ac iechyd mawr sy'n ymwneud â bwyd, yn ogystal ag ar ddiogelwch a dilysrwydd bwyd.

### Beth yw ein huchelgais?

Byddwn yn creu ac yn cydgysylltu tystiolaeth ar draws ystod o faterion yn ymwneud â bwyd. Byddwn yn adeiladu ein sylfaen dystiolaeth. Byddwn yn ymgorffori tystiolaeth am iechyd a chynaliadwyedd ochr yn ochr â'n corff o wybodaeth am ddiogelwch a dilysrwydd bwyd.

Un o brif swyddogaethau statudol yr ASB yw cynhyrchu tystiolaeth a dadansoddi mewn perthynas â'r meysydd o fewn ein cylch gwaith (a nodir yn adran 8 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999).

Rydym ni'n ceisio, yn adolygu ac yn cyhoeddi gwybodaeth. Rydym ni'n deall risgiau ac yn datblygu ein sylfaen dystiolaeth. Rydym ni hefyd yn casglu gwybodaeth i lywio ein dull ar draws meysydd eraill o'n gwaith, er enghraifft targedu ein hadnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

Bydd y rhan fwyaf o'n gwaith fel cynhyrchydd tystiolaeth yn ymwneud â diogelwch a dilysrwydd bwyd. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn cynyddu ein sylfaen dystiolaeth bresennol ar fwyd iachach a mwy cynaliadwy. Byddwn yn canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad a phrofiadau defnyddwyr yn y meysydd hyn, ac ar wneud yn siŵr ein bod mewn sefyllfa dda i ymgysylltu â thystiolaeth a gynhyrchir gan eraill yn y meysydd hyn.

**Mae enghreifftiau o'n gwaith yn y rôl hwn yn cynnwys:**

## Meithrin ein gallu gwyddonol

Mae Labordai Swyddogol yn gyfrifol am gynnal dadansoddiadau pwysig o samplau bwyd a bwyd anifeiliaid. Defnyddir y dadansoddiadau hyn i gynnal gwiriadau statudol ar y ffin ar gyfer mewnforion, cefnogi gorfodi cyfraith droseddol, cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau iechyd yr amgylchedd a safonau masnach, a chaniatáu ymatebion effeithiol i ddigwyddiadau mawr sy'n gysylltiedig â bwyd a bwyd anifeiliaid.

Mae graddfa ac ystod y profion dadansoddol wedi gostwng dros y blynyddoedd diweddaf, ac yn dilyn ein hymadawiad â'r UE, rydym ni hefyd wedi colli mynediad i Labordai Cyfeirio yr UE, a oedd yn datblygu dulliau dadansoddol ac yn rhannu gwybodaeth â labordai yn y DU. Yn y blynyddoedd i ddod, byddwn yn diwygio ac yn gwella'r system, i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn capasiti ac adeiladu System labordai Rheolaethau Swyddogol gwydn.

## Fframwaith Clefydau a Gludir gan Fwyd

Rydym ni wedi datblygu ein Fframwaith Clefydau a Gludir gan Fwyd i ddwyn ynghyd data a gwybodaeth gwyliadwriaeth ar y tri ar ddeg o bathogenau sy'n cael yr effaith fwyaf niweidiol ar gymdeithas. Mae'r fframwaith hefyd yn cael ei lywio gan adnodd Dadansoddi Penderfyniad Meini Prawf Lluosog, a ddatblygwyd gan yr ASB, i gyfrifo pa un o'r pathogenau sy'n cael yr effaith fwyaf andwyol ar gymdeithas (er enghraifft nifer yr achosion y flwyddyn, cost i gymdeithas a lefel pryder y cyhoedd). Yn gyffredinol, bydd y dull yn cynorthwyo ein gwaith i weithredu cynlluniau lleihau risg ar gyfer pob un, yn unol â'n dull o fod yn seiliedig ar risg ac yn gymesur.

## Gwyliadwriaeth iechyd deietegol yng Ngogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, lle mae'r ASB yn gyfrifol am gynghori gweinidogion ar faeth, rydym ni'n comisiynu ac yn dadansoddi amrywiaeth o arolygon i fonitro agweddau o ran deiet a phatrymau prynu. Rydym ni'n defnyddio'r rhain i lywio ein gwaith, i'w rhannu gyda rhanddeiliaid sy'n gweithio ar y materion hyn ac i fonitro canlyniadau a nodir yn Strategaeth atal gordewdra Gogledd Iwerddon. Rhennir y data'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol yng Ngogledd Iwerddon i gefnogi ymchwil iechyd deietegol a datblygiad polisi ehangach.

## Asesu proteinau amgen

Rydym ni'n disgwyl gweld ceisiadau am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio yn dod i law ym maes proteinau amgen. Mae'r ymholiadau sydd wedi dod i law hyd yn hyn wedi cynnwys cig wedi'i feithrin *(cultured meat)* (mewn labordai), cynhyrchion planhigion ac algâu a phryfed bwytadwy. Rydym ni am fod yn rhagweithiol, gan gydnabod potensial proteinau amgen i fod o fudd i iechyd deietegol, yr amgylchedd ac economi'r DU, gan barhau i sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.

Byddwn yn parhau i gynghori rhanddeiliad a phartneriaid ar ddarparu tystiolaeth o ansawdd uchel i gefnogi eu ceisiadau a helpu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon. Rydym ni hefyd yn ariannu ymchwil i ddeall yn well y risgiau diogelwch posibl a phroblemau newydd eraill a allai fod yn gysylltiedig â phroteinau amgen. Rydym ni'n edrych ar agweddau defnyddwyr at y cynhyrchion hyn a sut y gallai'r risgiau diogelwch fod yn wahanol i broteinau traddodiadol, er mwyn helpu i lywio penderfyniadau rheoleiddio a chyngor i'r diwydiant yn y dyfodol.

# Yr ASB fel lluniwr polisi

## Beth rydym ni'n ei wneud?

Rydym ni'n cynghori gweinidogion ar ddiogelwch bwyd, dilysrwydd bwyd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae'r meysydd polisi rydym ni'n cynghori arnynt yn wahanol ym mhob gwlad (gweler tudalen 19).

Yna mae gweinidogion yn llunio'r cyfreithiau a'r rheolau ar gyfer pob busnes sy'n ymwneud â chynhyrchu a gwerthu bwyd. Ategir hyn gan asesiadau risg o ddatblygiadau newydd a defnyddio gwyddoniaeth a thystiolaeth.

## Pam rydym ni'n gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod y corff o ganllawiau, rheolau a rheoliadau sy'n bodoli – yn genedlaethol, yn rhyngwladol ac ar lefel ddatganoledig – yn darparu bwyd y gallwch ymddiried ynddo.

## Beth yw ein huchelgais?

Byddwn yn gwneud argymhellion cadarn ac yn cefnogi gweinidogion i wneud penderfyniadau gwybodus ar reolau yn ymwneud â bwyd, yn seiliedig ar dystiolaeth ac asesiadau annibynnol. Byddwn yn gwneud y gwaith hwn yn unol â'n hegwyddorion i weithredu mewn modd cymesur sy'n seiliedig ar risg a'i gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau. Byddwn yn defnyddio dull pedair gwlad yn ein gwaith, gan ystyried Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a chydweithio â Safonau Bwyd yr Alban. Byddwn yn nodi ac yn achub ar gyfleoedd i ddiwygio rheoleiddio, fel bod ein dull yn addasu i system fwyd sy'n newid.


**Ein meysydd cyfrifoldeb polisi**

**Yng Ngogledd Iwerddon yn unig:**

- Safonau maeth a labelu
- Iechyd deietegol a gwyliadwriaeth

**Yng Nghymru a Gogledd Iwerddon:**

- Safonau cyfansoddiad bwyd a labelu*



**Ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon:**

- Diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid
- Mae hyn yn cynnwys gorsensitifrwydd i fwyd

(*Yn Lloegr mae'r ASB yn gweithredu ac yn gorfodi rheolau ar gyfer y meysydd hyn, ond nid yw'n arwain datblygiad polisi).

Mae gennym ni swyddogaeth statudol i ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â'r meysydd a nodir yn y diagram uchod.

Mewn meysydd polisi eraill, byddwn yn dal i gynnig cyngor neu fewnbwn i lunwyr polisi lle mae gennym ni dystiolaeth neu sgiliau perthnasol, ond bydd adrannau eraill yn "berchen" ar y polisi ac yn cynghori eu gweinidogion arno.

Fel lluniwr polisi, byddwn yn canolbwyntio'n bennaf ar ein rôl graidd, sef sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, a'n cylch gwaith maeth yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd angen dull gwahanol o lunio polisi ar Ogledd Iwerddon hefyd, gan ei fod yn dal i fod yn ddarostyngedig i benderfyniadau polisi'r UE o dan Brotocol Gogledd Iwerddon.

**Mae enghreifftiau o'n gwaith yn y rôl hwn yn cynnwys:**

### Awdurdodi Cynhyrchion wedi'u Rheoleiddio

Mae'r ASB a Safonau Bwyd yr Alban bellach yn gyfrifol am wneud argymhellion i weinidogion ar awdurdodiadau ar gyfer cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u rheoleiddio cyn y gallant gael eu rhoi ar y farchnad ym Mhrydain Fawr. Rydym ni hefyd yn bwriadu adolygu a moderneiddio'r ddeddfwriaeth a etifeddwyd gan yr UE er mwyn symleiddio'r dull awdurdodi. Bydd hyn yn ei gwneud yn gliriach ac yn haws, a fydd yn hyrwyddo arloesedd a thwf economaidd y DU, gan ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn.

### Sicrhau pwerau cyfreithiol yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (yr Uned) yr ASB yn gyfrifol am fynd i'r afael ag achosion o droseddau bwyd difrifol, cyfundrefnol a chymhleth. Byddwn yn ymgynghori'n gyhoeddus ar gynigion ar gyfer pwerau ychwanegol i'r Uned er mwyn cefnogi ymchwiliadau a lleddfu'r baich ar yr heddlu a chydweithwyr safonau masnach.

### Gweithio ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ar ôl Ymadael â'r UE

Rydym ni'n cynyddu ein gallu i gefnogi gwaith y llywodraeth ar gyfleoedd masnach i'r DU y tu allan i'r UE. Rydym ni'n darparu asesiadau risg ar gyfer gwledydd sydd am ddechrau mewnforio i'r DU, gan gefnogi trafodaethau Cytundeb Masnach Rydd ac arddangos ein trefniadau diogelwch bwyd ein hunain i wledydd yr ydym yn hallforio iddynt.

Mae Protocol Gogledd Iwerddon a natur ddatganoledig penderfyniadau polisi bwyd hefyd yn golygu, gan fod Prydain Fawr bellach y tu allan i system gyson yr UE, fod systemau rheoleiddio gwahanol wledydd y DU wedi dechrau dargyfeirio eisoes. Rydym ni wedi ymrwymo i weithio gyda rhannau eraill o'r llywodraeth i geisio consensws o ran y cyngor a roddwn i weinidogion ym mhob gwlad. Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan fydd y cyngor a roddwn i weinidogion yn cynnwys potensial ar gyfer dargyfeirio rhwng gwahanol wledydd. Ein dull o ymdrin â hyn yw sicrhau mai diogelwch, a risgiau iechyd y cyhoedd a nodir drwy asesiad risg, yw'r ffactor canolog yn ein penderfyniadau, tra'n cydnabod y cyd-destun ehangach a'r effaith y gallai ein cynigion ei chael ar fuddiannau eraill defnyddwyr.

# Yr ASB fel rheoleiddiwr

### Beth rydym ni'n ei wneud?

Rydym ni'n rheoleiddio'r system fwyd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Rydym ni'n gweithredu rheolaethau uniongyrchol o ran cynhyrchu cig, cynnyrch llaeth cynradd a gwin. Rydym ni'n gweithio gydag awdurdodau lleol sy'n arolygu busnesau lleol sy'n gwerthu bwyd – gan osod y fframwaith arolygu, darparu cyngor a chanllawiau. Rydym ni'n gwneud yr un peth ar gyfer awdurdodau iechyd porthladdoedd, sy'n arolygu mewnforion bwyd. Rydym ni'n darparu canllawiau i fusnesau bwyd. Rydym ni'n defnyddio gwyliadwriaeth i nodi risgiau i ddefnyddwyr a sylwi ar ddigwyddiadau diogelwch bwyd posib, ac rydym ni'n ymateb i'r rhain pan fyddant yn digwydd.

### Pam rydym ni'n gwneud hyn?

I wneud yn siŵr bod busnesau bwyd yn cydymffurfio â'r rheolau a'u cefnogi i ddilyn arferion gorau, fel bod defnyddwyr yn cael bwyd y gallwch chi ymddiried ynddo.

### Beth yw ein huchelgais?

Byddwn yn gweithredu yn unol â'n hegwyddor i fod yn gymesur ac yn seiliedig ar risg, gan deilwra ein dull o weithio ar gyfer gwahanol fusnesau a lefel y risg i ddefnyddwyr. Byddwn yn buddsoddi ein hadnoddau er mwyn rheoleiddio a sicrhau busnesau bwyd mewn ffyrdd callach, gan ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn i ddefnyddwyr.

Byddwn yn gweithio gyda a thrwy weithredwyr dylanwadol eraill ar y system fwyd, fel agregwyr digidol.

Mae gennym ni gyfrifoldeb penodol fel rheoleiddiwr uniongyrchol o fewn y sectorau cig, llaeth a gwin, gan orfodi rheolau gan gynnwys diogelwch, uniondeb a pha mor iach yw bwyd. Rydym ni hefyd yn monitro ac yn gorfodi cydymffurfiaeth â rheolau lles anifeiliaid mewn lladd-dai ar ran Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn Lloegr a Llywodraeth Cymru yng Nghymru. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar ran yr ASB gan DAERA.

Rydym ni'n arwain, cynghori a hyfforddi'r awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd sy'n gorfodi'r rheolau ar gyfer y busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid nad yw'r ASB yn eu rheoleiddio'n uniongyrchol.

Rydym ni hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd porthladdoedd i

feithrin eu gallu i gyflwyno gwiriadau ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu mewnforio o'r UE, yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE.

Mae ein cyfrifoldebau statudol fel rheoleiddiwr yn canolbwyntio ar sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label. Fodd bynnag, byddwn yn archwilio sut y gallwn wneud yn siŵr ein bod yn ystyried yn briodol effeithiau iechyd neu amgylcheddol bwyd yn ein gwaith i sicrhau diogelwch a dilysrwydd bwyd.

**Mae enghreifftiau o'n gwaith yn y rôl hwn yn cynnwys:**

## Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau

Bydd ein rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn moderneiddio'r ffordd y caiff busnesau bwyd eu rheoleiddio gan yr ASB ac awdurdodau lleol, drwy ddatblygu ffyrdd newydd o gynnal goruchwyliaeth reoleiddiol effeithiol dros system fwyd fwy amrywiol a chymhleth.

Bydd ein rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau yn datblygu set o ddulliau rheoleiddio gwell a fydd yn ei gwneud yn haws i fusnesau ddarparu bwyd diogel y gellir ymddiried ynddo i ddefnyddwyr, gan dargedu adnoddau rheoleiddio yn y meysydd sy'n peri'r risg fwyaf a gwella cydymffurfiaeth ar draws y system drwy weithio gydag eraill a thrwy eraill.

Mae'r rhaglen yn cynnwys tair ffrwd waith:

1. Rheoleiddio cymesur, wedi'i dargedu: Rydym ni'n cynllunio dull mwy cymesur, wedi'i dargedu o reoleiddio busnesau bwyd gan awdurdodau lleol.
2. Dulliau lefel menter: Byddwn yn llunio modelau rheoleiddiol newydd ar gyfer set o fusnesau mawr sy'n cydymffurfio â rheoliadau ac yn dylanwadu ar y gadwyn fwyd.
3. Sicrwydd gwerthiannau bwyd ar-lein: Byddwn yn asesu'r risgiau posib i ddefnyddwyr o brynu bwyd ar-lein, a'r dulliau rheoleiddio sydd ar gael i fynd i'r afael â'r rhain.

## Trawsnewid Gweithredol

Mae angen i'r model rheoleiddio ar gyfer y Rheolaethau Swyddogol yr ydym yn eu darparu'n uniongyrchol fod yn gyson ag arloesedd y diwydiant. Yn debyg i'r rhaglen Sicrhau Cydymffurfiaeth Busnesau a ddisgrifiwyd ar dudalen 22, byddwn yn rheoleiddio mewn modd callach tra'n parhau i sicrhau ymddiriedaeth a diogelwch bwyd. Byddwn yn arloesol, yn seiliedig ar risg ac yn gymesur ac yn sicrhau model gweithredu cost-effeithiol yn y dyfodol.

Nod ein Rhaglen Trawsnewid Gweithredol yw:

a. Datblygu dull modern a chymesur o arolygu
b. Gwella prosesau a gweithredu er mwyn cynyddu cydymffurfiaeth, ailffocysu adnoddau cyfyngedig yn y meysydd risg uchaf.

Byddwn yn ceisio gwneud gwelliannau o fewn y fframwaith deddfwriaethol presennol, ond byddwn hefyd yn ceisio newid deddfwriaethol lle bo angen.

## Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd

Mae'r ASB yn gweithredu'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (y Cynllun) mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r Cynllun yn darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr am y safonau hylendid mewn safleoedd bwyd adeg arolygiadau awdurdodau lleol i wirio cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol. Mae'r Cynllun yn fesur pwysig i ddiogelu iechyd y cyhoedd, ac mae sgoriau uchel yn gysylltiedig â llai o achosion o glefydau a gludir gan fwyd.

Gall bobl weld y sgoriau yn www.food.gov.uk/sgoriau a thrwy apiau ffôn clyfar a data agored. Mae busnesau hefyd yn cael sticeri du a gwyrdd nodedig sy'n dangos eu sgôr i'w harddangos ar eu safleoedd.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fusnesau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon arddangos eu sticeri sgoriau ar eu safleoedd, ac mae cynigion i ddeddfu ar gyfer eu harddangos ar-lein yn cael eu datblygu a disgwylir i reoliadau fod ar waith yng Ngogledd Iwerddon cyn diwedd 2022. Yn Lloegr, nid oes gorfodaeth i'w harddangos ar hyn o bryd, ond rydym ni wedi ymrwymo i wthio'r achos dros arddangos gorfodol ar y safle ac ar-lein i gyd-fynd â Chymru a Gogledd Iwerddon.

## Rhaglen gweithredu bwyd anifeiliaid

Mae'r ASB yn gyfrifol am gomisiynu gweithredu Rheolaethau Swyddogol ar fwyd anifeiliaid drwy bartneriaid awdurdodau lleol. Mae ymadawiad y DU â'r UE ynghyd â'r angen i'r sector bwyd anifeiliaid gyfrannu at gynhyrchu bwyd cynaliadwy wedi arwain at amgylchedd sy'n newid yn gyflym mewn cadwyni cyflenwi bwyd anifeiliaid.

Er enghraifft, bu datblygiadau yn y defnydd o broteinau pryfed a cheisiadau am ychwanegion bwyd anifeiliaid y mae eu datblygwyr yn gobeithio y byddant yn cael effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Mae gan yr ASB ran i'w chwarae i sicrhau bod rheoleiddio bwyd anifeiliaid yn ddigon hyblyg i ymateb i gyflymdra arloesi.

Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau diogelwch a pharhad o ran diogelwch iechyd y cyhoedd. Byddwn yn cefnogi ein partneriaid gweithredu mewn awdurdodau lleol drwy wneud y canlynol:

- Manteisio i'r eithaf ar allu a chapasiti partneriaid gorfodi.
- Datblygu offer a mecanweithiau i gyflymu'r broses o nodi mewnforion bwyd anifeiliaid, a thrwy hynny ganolbwyntio adnoddau ar y materion sy'n cael yr effaith fwyaf.
- Diweddaru ein cyfarwyddiadau a chanllawiau Rheolaethau Swyddogol i ddarparu eglurder amserol lle mae datblygiadau cyflym yn gofyn am hyn.

## Dosbarthu ardaloedd pysgod cregyn

Mae'r ASB yn gyfrifol am ddosbarthu ardaloedd cynaeafu pysgod cregyn sy'n rhagofyniad ar gyfer cynhyrchu pysgod cregyn. Caiff safleoedd eu dosbarthu yn dibynnu ar lefel yr halogiad a nodir gan brofion E.coli. Rhoddodd ymadawiad y DU â'r UE ffocws ychwanegol ar y sector hwn ac ar y rhaglen ddosbarthu.

Rydym ni'n mireinio ein dulliau o weithredu rheolaethau swyddogol ar bysgod cregyn, gan weithio o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol i gefnogi busnesau wrth iddynt addasu i ofynion allforio newydd a gwneud yn siŵr bod unrhyw newidiadau yn seiliedig ar dystiolaeth a bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid i foderneiddio'r ffordd y caiff y rheolaethau hyn eu gweithredu.

# Yr ASB fel corff gwarchod

### Beth rydym ni'n ei wneud?
Rydym ni'n adolygu ac yn adrodd ar safonau bwyd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, gan ddefnyddio gwyliadwriaeth, sganio'r gorwel a chudd-wybodaeth. Rydym ni'n siarad yn gyhoeddus am feysydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr, pan fydd gennym ni dystiolaeth neu arbenigedd a allai wneud gwahaniaeth.

### Pam rydym ni'n gwneud hyn?
Fel sefydliad sy'n gweithio ar draws y system fwyd, gallwn helpu i nodi materion sy'n dod i'r amlwg, tueddiadau a risgiau posibl i ddefnyddwyr, a gwneud yn siŵr bod pawb sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar y system fwyd yn ymwybodol ohonynt. Mae hyn yn ein helpu ni, ac eraill, i ddiogelu safonau bwyd uchel y DU a sicrhau bod pawb yn gallu parhau i gael bwyd y gallwch ymddiried ynddo.

### Beth yw ein huchelgais?
Byddwn yn defnyddio ein hannibyniaeth, ein llais a'n tystiolaeth i hysbysu a pherswadio eraill yn unol â'n hegwyddor i fod yn llais dibynadwy ar safonau bwyd, gan ddiogelu buddiannau defnyddwyr.

Gall yr ASB edrych dros y system fwyd a monitro datblygiadau neu gynnydd tuag at gamau gweithredu sy'n cefnogi iechyd y cyhoedd, neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Byddwn yn defnyddio ein pwerau i gyhoeddi cyngor a gwybodaeth. Rydym ni'n gwneud hyn drwy: gyhoeddi adroddiadau ar safonau bwyd, asesu graddfa bygythiadau troseddau bwyd, a chyhoeddi cyngor annibynnol i lywodraethau pan fyddwn o'r farn bod risgiau i ddiogelwch y cyhoedd neu i fuddiannau defnyddwyr. Byddwn yn ceisio defnyddio'r rôl hon fel corff gwarchod i ysgogi newidiadau mewn polisi, ymddygiad defnyddwyr ac ymddygiad busnesau.

Byddwn yn adolygu ac yn adrodd ar safonau a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd yn y DU, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban.

Byddwn yn casglu ac yn rhannu gwybodaeth am droseddau bwyd, ac yna'n ymchwilio iddynt a tharfu arnynt fel rhan o'n rôl fel rheoleiddiwr.

Byddwn yn siarad yn gyhoeddus am feysydd sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr, pan fydd gennym dystiolaeth neu arbenigedd i'w hychwanegu.

**Mae enghreifftiau o'n gwaith yn y rôl hwn yn cynnwys:**

## Adroddiad Blynyddol i'r Senedd

Bydd yr ASB, ar y cyd â Safonau Bwyd yr Alban, yn cyhoeddi adroddiad blynyddol newydd ar safonau bwyd yn 2022. Drwy gydol paratoadau'r DU ar gyfer Ymadael â'r UE, roedd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn glir y byddem yn gweithio i gynnal ein safonau uchel o ran diogelwch a dilysrwydd bwyd ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae ein hadroddiad blynyddol wedi'i ddatblygu i roi adroddiad annibynnol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddefnyddwyr am safonau bwyd y DU.

Bydd yr adroddiad yn cwmpasu cyflwr plât y genedl trwy roi trosolwg o arferion siopa a bwyta pobl: ble mae pobl yn prynu bwyd, ble mae pobl yn bwyta, beth maent yn ei fwyta, a faint maent yn ei wario ar fwyd. Bydd yn cwmpasu pryderon, diddordebau, a blaenoriaethau defnyddwyr o ran bwyd. Bydd yr adroddiad yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i archwilio'r cwestiwn craidd: a yw safonau bwyd yn cael eu cynnal, yn codi, neu'n gostwng ledled y DU?

## Asesiadau strategol o droseddau bwyd

Mae Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB ac Uned Troseddau a Digwyddiadau Bwyd yr Alban yn cyhoeddi asesiadau strategol cyfnodol o droseddau bwyd. Mae'r asesiadau hyn yn disgrifio bygythiadau i'r DU a'i buddiannau yn sgil troseddau bwyd. Er enghraifft, daeth yr asesiad blaenorol i'r casgliad bod y rhan fwyaf o droseddau bwyd yn ymwneud â dau ddosbarth eang o weithgarwch – naill ai ail-osod deunyddiau sydd ag ychydig neu ddim gwerth yn y gadwyn fwyd fel rhai y gellir eu bwyta a'u marchnata, neu werthu bwyd, diod neu fwyd anifeiliaid arferol fel cynnyrch sydd â mwy o gyfaint neu briodoleddau mwy dymunol.

Rydym ni'n defnyddio'r asesiadau hyn i ddatblygu ein blaenoriaethau a darparu strategaethau i wrthsefyll y bygythiadau mwyaf niweidiol, ac i gyfeirio'r broses o gasglu gwybodaeth lle mae gennym fylchau o ran ein cwmpas neu ein dealltwriaeth. Disgwylir i'r asesiad strategol nesaf gael ei gyhoeddi ddechrau 2023.

# Yr ASB fel cynullydd a chydweithredwr

## Rydym ni'n gynullydd ac yn gydweithredwr

Rydym ni'n dod â phobl ynghyd i fynd i'r afael â phroblemau yn y system fwyd, gan weithio gyda rhannau eraill o'r llywodraeth, y byd academaidd, cymdeithas sifil a busnesau i gefnogi nodau ac amcanion a rennir. Rydym ni'n rhannu mewnwelediadau a thystiolaeth ar fuddiannau dinasyddion i helpu i lywio syniadau ar draws y llywodraeth.

## Pam rydym ni'n gwneud hyn?

Er mwyn sicrhau bod gweithredwyr (actors) dylanwadol yn y system fwyd yn cydweithio, oherwydd mae gan bob un ohonom rôl a chyfrifoldeb i greu system fwyd y gallwch ymddiried ynddi.

## Beth yw ein huchelgais?

Byddwn hyd yn oed yn fwy rhwydweithiol gydag eraill yn y system fwyd. Rydym ni'n gweithredu yn unol â'n hegwyddor i weithio gydag eraill a thrwy eraill a datblygu perthnasoedd gwaith dyfnach. Bydd hyn yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl a busnesau, oherwydd gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd.

Dim ond un o'r gweithredwyr yn y system fwyd yw'r ASB. I gyflawni bwyd y gallwch ymddiried ynddo, bydd angen i ni weithio gyda rhannau eraill o'r llywodraeth, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, Safonau Bwyd yr Alban ac awdurdodau lleol, ein cyflenwyr, y diwydiant, a chymdeithasau defnyddwyr.

Rydym ni'n disgwyl chwarae rôl cynullydd neu gydweithredwr ar gyfer llawer o'n gwaith cynnar ar fwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy. Nid oes gennym ni gyfrifoldeb polisi ar gyfer y meysydd hyn, ar wahân i safonau maeth a labelu yng Ngogledd Iwerddon, ond rydym ni'n disgwyl y byddwn ni'n gweithio'n agos gyda'r adrannau sydd yn gyfrifol, ochr yn ochr â phartneriaid y tu allan i'r llywodraeth. Gallwn ddod â'n tystiolaeth a'n profiad o reoleiddio polisi bwyd i'n helpu i lywio datblygiad cynlluniau i wneud bwyd yn iachach ac yn fwy cynaliadwy.

**Mae enghreifftiau o'n gwaith yn y rôl hwn yn cynnwys:**

## Tyfu ein presenoldeb rhyngwladol

Strategaeth ryngwladol yr ASB yw cynyddu ein dylanwad i ddod yn llais cryfach a mwy dylanwadol ar lwyfan y byd. Rydym ni am ddefnyddio ein harbenigedd i helpu i ddatrys problemau a wynebir yn rhyngwladol, ac rydym ni am ddysgu oddi wrth reoleiddwyr eraill fel bod arferion gorau yn cael eu cymhwyso yn y DU.  Rydym ni hefyd am wneud yn siŵr bod bwyd a fewnforir yn bodloni safonau uchel, felly byddwn yn chwarae ein rhan mewn sgyrsiau amlochrog am safonau bwyd.

Mae'r DU yn ddylanwadol mewn fforymau rhyngwladol, sy'n gosod safonau byd-eang o ran bwyd ac iechyd anifeiliaid a phlanhigion, a ddefnyddir hefyd gan Sefydliad Masnach y Byd.  Mae'r cyfrifoldebau dros arwain gwaith gwahanol bwyllgorau'r Comisiwn Codex Alimentarius yn cael eu rhannu rhwng adrannau'r llywodraeth. Mae'r ASB yn arwain ar bwyllgorau diogelwch bwyd, fel hylendid bwyd, ychwanegion bwyd a halogion; mae gan bwyllgorau eraill arweinwyr mewn adrannau eraill. Mae'r ASB hefyd yn weithgar o fewn Sefydliad y Byd ar gyfer Iechyd Anifeiliaid a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd.

## PATH-SAFE

Mae'r prosiect PATH-SAFE (Gwyliadwriaeth Pathogenau mewn Amaethyddiaeth, Bwyd a'r Amgylchedd) yn dod â'r ASB, Safonau Bwyd yr Alban, Defra, DHSC, yr Asiantaeth Diogelwch Iechyd ac Asiantaeth yr Amgylchedd ynghyd i brofi'r defnydd o dechnolegau genomig wrth oruchwylio pathogenau a gludir gan fwyd a microbau ymwrthedd gwrthficrobaidd ym mhedair gwlad y DU. Bydd cyllid o £19.2 miliwn a ddarperir drwy Gronfa Canlyniadau a Rennir y Trysorlys yn cefnogi prosiect tair blynedd gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith gwyliadwriaeth cenedlaethol peilot. Bydd yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf ym maes dilyniannu DNA a samplu amgylcheddol i wella'r broses o ganfod ac olrhain pathogenau a gludir gan fwyd a phathogenau ymwrthedd gwrthficrobaidd trwy'r system fwyd-amaeth gyfan o'r fferm i'r fforc. Mae hon yn enghraifft dda o gyflawni ein hegwyddorion o weithio gydag eraill a thrwy eraill, a chael ein harwain gan wyddoniaeth a thystiolaeth.

## Safonau Bwyd Mewn Ysgolion

Rydym ni'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr Adran dros Addysg, Swyddfa Gwella Iechyd a Gwahaniaethau, ac awdurdodau lleol i asesu a gwella lefelau cydymffurfio â Safonau Bwyd mewn Ysgolion. Mae'r safonau hyn yn orfodol ar gyfer ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn Lloegr, ac yn gosod safonau maeth gofynnol ar gyfer bwyd ysgolion.

Gan ddefnyddio ein gwybodaeth am y system fwyd a'n profiad o weithio gydag awdurdodau lleol, rydym ni'n cynnal cyfres o gynlluniau peilot i brofi sut y gellir sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau yn well.

# 5. Gweithredu'r strategaeth a mesur cynnydd

Mae'r strategaeth hon yn pennu ein cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Disgwyliwn i'n sefydliad a'n gwaith esblygu i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd gennym.

Mae'r pum mlynedd diwethaf, gyda'r DU yn Ymadael â'r UE a'r pandemig COVID-19, wedi dangos y gall ein cyd-destun newid yn sylweddol. Ond disgwyliwn i'r strategaeth hon ddarparu fframwaith ar gyfer wynebu'r newidiadau hynny: eglurder o ran ein gweledigaeth, ein hamcanion, a sut yr ydym am weithio. Bydd angen i ni fod yn hyblyg yn ein dull o weithio, yn enwedig wrth i ni archwilio meysydd newydd o'n strategaeth, fel ein gweledigaeth ar gyfer bwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy.

Rydym ni'n gosod ein hamcanion corfforaethol a chynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn gyntaf ochr yn ochr â'r strategaeth hon a byddwn yn gosod cynlluniau gwaith ar gyfer y blynyddoedd dilynol drwy ein proses cynllunio corfforaethol. Byddwn yn trafod y rhain yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid allanol i lywio cynlluniau gwaith, fel rhan o'n hymrwymiad i weithio gydag eraill a thrwy eraill.

Ar ôl llunio ein strategaeth, bydd angen i ni wneud yn siŵr bod gan yr ASB y capasiti a'r gallu i'w chyflawni. Yn ein cynlluniau gwaith, byddwn yn cynnwys rhai darnau o waith mewnol sy'n ein helpu i feithrin yr adnoddau hynny, ac i sicrhau bod y prif egwyddorion wedi'u hymgorffori'n llawn o fewn yr ASB.

## Ein cynllun pobl

Rydym ni'n datblygu cynllun pobl newydd i'n galluogi i gyflawni ein strategaeth. Bydd yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar allu sefydliadol, gwireddu ein gwerthoedd a sicrhau profiad rhagorol i weithwyr a datblygu ein pobl.

## Dull gwasanaethau

Rydym ni'n credu ei bod yn bwysig gweld rhywfaint o'n gwaith fel 'gwasanaeth' i'r cyhoedd, y diwydiant, awdurdodau lleol neu rannau eraill o lywodraeth. Rydym ni wedi defnyddio dull dylunio gwasanaeth yn ein gwasanaethau digidol ers peth amser ond rydym ni bellach yn ehangu hyn i feysydd eraill o'n sefydliad. Bydd hyn yn cynnwys cynyddu'r adborth a gawn ar ein gwaith, sefydlu a monitro metrigau perfformiad ac ailgynllunio rhai o'n prosesau fel eu bod yn rhedeg yn llyfnach. Trwy'r broses hon, rydym ni'n gobeithio ei gwneud yn haws i fusnesau gyflawni eu rhwymedigaethau a gwneud y peth iawn.

# Mesur cynnydd

## Mesurau presennol

Mae'r system fwyd yn hynod gymhleth. Er mwyn mesur ein llwyddiant wrth weithredu'r strategaeth, bydd angen i ni ystyried ystod o fetrigau sy'n cydnabod y cymhlethdod sydd ynghlwm wrth fesur cynnydd yn y system fwyd.

Ceir hefyd lawer o weithredwyr, gan gynnwys yr ASB, bob un â'u rolau a'u cyfrifoldebau gwahanol i sicrhau bod bwyd yn ddiogel, yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac yn iach a chynaliadwy. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ni edrych ar gynnydd o sawl ongl.


Mae gan yr ASB system adrodd ar berfformiad gyda nifer o fetrigau a thargedau, o'n hamcanion strategol lefel uchaf i weithgareddau dyddiol ein gwaith rheng flaen. Rydym ni'n cyhoeddi data perfformiad yn rheolaidd, er enghraifft mewn adroddiadau perfformiad ac adnoddau i Bwyllgor Busnes Bwrdd yr ASB.

Rydym ni'n bwriadu datblygu'r system adrodd perfformiad hon a'i defnyddio i fesur cynnydd yn erbyn ein strategaeth newydd.

Mae llawer o'r mesurau presennol eisoes yn cyd-fynd â'n strategaeth newydd gan gynnwys ar sicrhau bod bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.


Er enghraifft, ar gyfer sicrhau bod **bwyd yn ddiogel**, rydym ni'n cyhoeddi ffigurau ar gyfer nifer yr achosion a gadarnhawyd gan labordai o'r 'pedwar prif' bathogen bwyd. Dyma nifer yr achosion, a gadarnhawyd gan brofion labordai, o bedair o'r prif ffynonellau o salwch a gludir gan fwyd – E . Coli, Salmonela, Campylobacter a Listeria. Mae hyn yn ein galluogi ni i fesur canlyniad yr ydym am ei weld yn y system fwyd, sef mae achosion yn parhau i fod yn isel.

**Achosion o'r 'pedwar prif' bathogen bwyd wedi'u cadarnhau gan mewn labordai (000au)**




Rydym ni'n mesur barn defnyddwyr ar y system fwyd a'r ASB yn rheolaidd:

**% y defnyddwyr sydd â hyder mewn diogelwch a dilysrwydd bwyd**





Rydym ni hefyd yn cyhoeddi mesurau sy'n dangos cyfraniad yr ASB ac eraill yn y system fwyd at gyflawni'r canlyniadau hyn. Er enghraifft, rydym ni'n adrodd ar ganran y gweithredwyr busnesau bwyd a gafodd sgôr Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd o bump (sy'n golygu da iawn) a'r rhai sy'n cael sgôr is na thri (sy'n golygu is na boddhaol). Rydym ni hefyd yn adrodd ar ganran y gweithredwyr busnesau bwyd cig sy'n cael sgôr foddhaol neu'n uwch ar gyfer gweithgarwch cydymffurfio ac archwilio.

**Canran y busnesau a gafodd sgôr o bump (da iawn)**



**Canran y busnesau cig a archwiliwyd a gafodd sgôr 'dda'**




Mae'r mesurau hyn yn parhau i gynrychioli darlun o berfformiad yr ASB a'r system fwyd yn ei chyfanrwydd ac yn darparu llinell sylfaen ddefnyddiol i fesur cynnydd yn ei herbyn.

## Mesurau newydd a diweddar

Byddwn hefyd yn datblygu metrigau newydd ac yn adolygu ein hadroddiadau perfformiad i gyd-fynd â'r strategaeth newydd hon.

Er mwyn gwerthuso ein strategaeth yn effeithiol, bydd ein metrig yn ystyried y darlun llawn, fel bod gennym y ffigurau ar gyfer ein gweithgareddau a'n hallbynnau, ac ar gyfer sut mae'r system fwyd yn dod yn ei blaen yn gyffredinol a sut mae'r rheiny'n cydblethu fel y gallwn asesu ein cyfraniad ni'n benodol:

- Datblygu a gwella mesurau sy'n cwmpasu ein rôl graidd sef sicrhau bod **bwyd yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label**.
- Ymgorffori'r set gywir o fesurau i ddeall cynnydd ym maes **bwyd sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy** (gan adeiladu ar y mesurau maeth presennol sydd ar waith yng Ngogledd Iwerddon).
- Ymgorffori mesurau sy'n berthnasol i ddiogelu buddiannau ehangach defnyddwyr mewn perthynas â bwyd, fel ansicrwydd bwyd a fforddiadwyedd.
- Ehangu'r mesurau sy'n ymwneud â sut rydym yn gwreiddio ein hegwyddorion, er enghraifft mesurau o'r gwasanaeth a ddarperir gan yr ASB, fel adborth gan ddefnyddwyr, neu faint o amser y mae'n ei gymryd i ni gymryd camau penodol.
- Olrhain y buddion yr ydym wedi'u cyflawni mewn meysydd a gwmpesir gan ein strategaeth, er enghraifft pa gerrig milltir yn y cynllun corfforaethol yr ydym wedi'u cyrraedd a pha effaith ar ddefnyddwyr y gallwn ei dangos (naill ai fel rhagolygon neu werthusiadau ôl-weithredol).

Yn y pen draw mae'r strategaeth hon yn ymwneud â darparu bwyd y gall defnyddwyr ymddiried ynddo. Gan ddefnyddio set gadarn ac amrywiol o fesurau i fesur cyflawniad ac effaith dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn gallu addasu ein dull gweithredu lle bo angen, ymdrin â newid, ac yn y pen draw sicrhau bod gan bawb fwyd sy'n ddiogel, sy'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, ac sy'n iachach ac yn fwy cynaliadwy.